**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

24 Hydref 2025

Annwyl Mark,

Adolygiad o Weithdrefnau Cyllideb Atodol a Phrotocol Proses y Gyllideb

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf 2025 a oedd yn nodi cefnogaeth gyffredinol i'r newidiadau arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb a gweithdrefnau cyllidebol y Senedd ac iddynt gael eu mabwysiadu fel un pecyn cyfunol o newidiadau. Rydym hefyd yn nodi eich barn nad yw'n hanfodol gwneud y newidiadau hyn cyn y diddymiad.

Rydym wedi gwneud sylwadau rheolaidd ar y cynigion hyn mewn gohebiaeth yn ystod y Senedd hon ac yn cydnabod y dylid ystyried y newidiadau arfaethedig fel pecyn dim ond ar ôl dod i gytundeb rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru; sy'n bwynt yr ydym wedi'i wneud o'r blaen.

Rydym hefyd yn cydnabod bod y cynigion yn ymwneud â materion ehangach sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau cyllidebol y Senedd, yn enwedig o ystyried y symudiad i un digwyddiad cyllidol yn y DU a gynhelir yn yr hydref, a chytunwn eu bod yn faterion y bydd y Senedd nesaf yn naturiol am eu hystyried.

Serch hynny, mae'n siomedig nad ydych wedi ymgysylltu'n ystyrlon â'r Pwyllgor neu'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar y materion hyn, neu wedi darparu barn glir mewn ymateb i'n cynigion a gofynnwn eto i chi gadarnhau eich safbwynt ar y materion hyn. Heb hyn rydym yn parhau i fod yn ansicr o ran pa agweddau ar y newidiadau rydych chi'n eu cefnogi neu pa rai sy'n peri problem i chi, a chredwn bod y safiad hwn a'r diffyg ysgogiad cyffredinol i weld cynnydd yn y maes hwn wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i'r newidiadau hyn gael eu hystyried a'u cytuno cyn diwedd y Senedd hon.

Byddwn yn myfyrio ar y materion hyn fel rhan o'n Hadroddiad Gwaddol i sicrhau nad yw ymdrechion y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i godi'r materion hyn a'r syniadau ar gyfer newid yn cael eu colli, ac y byddant yn parhau i lywio gweithdrefnau cyllidebol y Senedd yn y Seithfed Senedd.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon hefyd at y Pwyllgor Busnes gan ei fod ar hyn o bryd yn ystyried materion gweithdrefnol cyn y Seithfed Senedd.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.